Mewnwelediad Gwybodaeth a Dysgu 2018



# Rhoi cynhwysion da yn y cymysgedd

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

## Gwersi a chyfleoedd ar gyfer gweithio ac ariannu seiliedig ar le









Mae'r papur hwn wedi'i baratoi gan y Gronfa Loteri Fawr i grynhoi dysgu am weithio ac ariannu trwy ddulliau seiliedig ar le.

Nid yw'n adolygiad cynhwysfawr na systematig ac mae'n cydnabod natur y dysgu hyd yma sydd, ar adegau, yn groesddywedol, yn ogystal â'r sylfaen dystiolaeth fach o ran sut mae ymyraethau effeithiol ar gyfer trawsnewid lleol a newid systemau'n gynaliadwy yn edrych.

Rydym yn cynnig egwyddorion syml, sydd wedi'u haddasu o waith ar ymateb i gymhlethdod, ar gyfer grwpio pwyntiau dysgu allweddol er mwyn cyfeirio dulliau gweithio seiliedig ar le yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gofyn cwestiynau i Arianwyr fyfyrio arnynt, ac yn cynnig pedair astudiaeth achos gryno sy'n dangos sut mae mudiadau'n ymgymryd ag ariannu neu waith seiliedig ar le'n ymarferol.

Cyfeirnodau allweddeiriau: gweithio seiliedig ar le, ariannu, lle, perthnasoedd, dysgu, dyngarwch

## 1. Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **3**

**Dysgu Allweddol** ..... **3**

1. Gwybod hanes, cefndir a chyd-destun lle ..... 3
2. Buddsoddi mewn pobl a pherthnasoedd ..... 4
3. Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer newid ..... 5
4. Dechrau'n fach, rhoi cynnig ar bethau gwahanol ..... 5
5. Darparu ar gyfer amrywiad ..... 6
6. Bod yn realistig. Derbyn camgymeriadau a methiant, gwneud lle ar gyfer dysgu a myfyrio 6
7. Parhau i chwilio am newid ..... 7

**Sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg?** ..... **7**

**Cwestiynau ar gyfer arianwyr** ..... **8**

1. Sut gall ariannu seiliedig ar le ymdrin ag anghydraddoldebau lles? ..... 8
2. Sut gallwn fod mor effeithiol â phosib wrth gysylltu ein mentrau mewn lle? ..... 8
3. Sut gall Arianwyr neilltuo mwy o amser ac adnodd i adolygu a rhannu dysgu am ein harfer ein hunain? ..... 8
4. Sut gall cymysgedd o ariannu ymatebol a strategol gyfuno'n effeithiol i adeiladu ar gyfalaf cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli? ..... 9

**Atodiadau: Astudiaethau achos** ..... 10

Sefydliad Joseph Rowntree, Hartlepool Action Lab ..... 10

Cronfa Loteri Fawr, Jaywick Sands, Essex ..... 11

Sefydliad Rank, Rhaglen Datblygu Cymunedol Hull ..... 12

Cronfa Loteri Fawr, Great Yarmouth, Neighbourhoods that Work ..... 13

**Llyfryddiaeth** ..... **14**

## Cyflwyniad

Mae dulliau gweithio ac ariannu seiliedig ar le wedi bodoli ers o leiaf y 1960au (Buckley & Taylor, 2017) ac yn ymgais i ymateb i'r cydweddiad rhwng perthnasoedd, anghenion, asedau, ymgysylltu cymunedol, pŵer, systemau a strwythurau wrth adeiladu cymunedau ffyniannus, mwyafu cyfalaf cymdeithasol a phrofi datrysiadau cynaliadwy i heriau cymhleth.

Does dim model unigol neu ffordd 'iawn' o weithio neu ariannu mewn lle ac mae mudiadau, gan gynnwys arianwyr, wedi dewis o amrywiaeth o opsiynau gan dibynnu ar eu cymhelliannau eu hunain neu'r hinsawdd cymdeithasol ac ariannol ehangach. Efallai y byddant yn credu bod trin y lle, person neu 'system' gyfan mewn ffordd gydweithiol neu gyd-ddibynnol yn fwy pwrpasol neu gynaliadwy nag ymyraethau unigol. Efallai y byddant am gryfhau lleisiau pobl mewn cymunedau wrth bennu blaenoriaethau ariannu, neu gydnabod yr angen am ddileu rhwystrau ar gyfer y rhai y maent efallai wedi wynebu rhwystrau'n draddodiadol i gyrchu cyllid.

Mae gwaith gan Lankelly Chase (Buckley & Taylor, 2017), the Institute for Voluntary Action Research (IVAR) (Institute for Voluntary Action Research (IVAR, 2016), Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) (Telfer, 2013), Sefydliad Rank Foundation, Sefydliad Baring (Bolton, 2015), Local Trust (Leach, 2017) a Creative People and Places (Robinson, 2016) (y Cyngor Celfyddydau), ymysg eraill, yn cynnig dysgu a fframweithiau ar gyfer arianwyr sydd am ddatblygu gwaith seiliedig ar le.

Mae'r papur hwn yn galw ar y gwaith hwn er mwyn cynnig egwyddorion syml, sydd wedi'u haddasu o waith ar ymateb i gymhlethdod, ar gyfer grwpio pwyntiau dysgu allweddol er mwyn cyfeirio dulliau gweithio seiliedig ar le yn y dyfodol.(Boulton, et al., 2015) (Green, 2015)

Nid yw'n adolygiad cynhwysfawr na systematig ac mae'n hanfodol cydnabod natur y dysgu hyd yma sydd, ar adegau, yn groesddywedol, yn ogystal â'r sylfaen dystiolaeth fach o ran sut mae ymyraethau effeithiol ar gyfer trawsnewid lleol a newid systemau'n gynaliadwy yn edrych.

## Dysgu Allweddol

### 1. Gwybod hanes, cefndir a chyd-destun lle

"Mae dechrau gwaith mewn ardal yn gofyn am ymrwymiad i ddysgu am y lle a pharch at yr hyn sydd eisoes yno [...] mae gormod o ddulliau yn y gorffennol wedi methu ar y pwynt hwn [...] yr agwedd bwysicaf ar arfer gorau yw sensitifrwydd a sgil yr ariannwr wrth ddefnyddio gwybodaeth leol" (Buckley & Taylor, 2017)

"Mae gweithio gyda phobl leol i ddeall tirwedd, hanes a naws ardaloedd bach, ac annog grwpiau i fod yn actif yn annibynnol a denu eu cyllid eu hunain wedi dileu rhwystrau. Mae hyn yn awgrymu potensial am fath newydd o hunanddibyniaeth." (Robinson, 2016)

*Yn eu gwaith seiliedig ar le yn Hull, Dundee a Plymouth, mae Sefydliad Rank wedi recriwtio eu Cydlynydd neu Gyswllt lleol o blith 'pobl leol sydd â chysylltiadau da.' Mae hyn wedi caniatáu rhyddid rhag yr Awdurdod Lleol a mecanweithiau isadeiledd lleol eraill ac wedi galluogi cyfryngwr annibynnol 'gonest' i frocera cytundebau a chreu rhwydweithiau.*

- Peidiwch ag arwain gydag arian - treuliwch gryn dipyn o amser yn gwneud ymchwil a

dod yn gyfarwydd â'r ardal.

- Dylech adnabod asedau a systemau lleol, peidiwch â chanolbwyntio ar ddata a demograffeg yn unig.
- Lleolwch eich hun yn y lle o'ch dewis. Nid oes gan bobl leol ffydd mewn 'parasiwtio i mewn' o'r tu allan.
- Diffiniwch ffiniau lleoedd sydd ag ystyr ar gyfer pobl leol, ond peidiwch ag anwybyddu'r cyd-destun ehangach - efallai bod gan ffiniau ystyr gwahanol ar gyfer rhai cymunedau.
- Cymerwch amser i ddeall y ddeinameg bŵer, agendâu gwleidyddol a diwylliannau lleol.
- Byddwch yn ymwybodol o'r goblygiadau a'r 'baich' a allai berthyn i'ch partneriaid yn yr ardal leol a sut y gallai hyn effeithio ar barodrwydd pobl i ddangos diddordeb.
- Gall ardaloedd sydd â phoblogaethau mudol beri heriau penodol a gofyn am sylw cyson.
- Gwnewch yn siŵr y ceir atebolrwydd rhwng, ac i, bartneriaid lleol, nid i chi fel Ariannwr.
- Nid oes unrhyw atebion hawdd p'un a ddylid targedu gwaith mewn mannau oer neu ble mae rhywfaint o gapasiti sy'n bodoli eisoes.

## 2. Buddsoddi mewn pobl a pherthnasoedd

*"Gall buddsoddi mewn adeiladau a phobl helpu [...] cryfhau'r rhwydweithiau a pherthnasoedd sy'n allweddol i ddatgloi'r adnoddau o fewn ein cymunedau."* (Big Lottery Fund, 2014)

*"Er yr ymddengys yn arwynebol fod gan drafodaeth o berthnasoedd a charedigrwydd bob dydd mewn cymdogaethau ychydig iawn o berthnasedd yn wyneb heriau brys caledi ac anghydraddoldeb cynyddol, mae'r cysyniadau hyn wrth wraidd ein gallu i greu lles a'r sylfeini y gellir adeiladu'r pŵer i newid arnynt."* (Ferguson, 2016)

*Yn Great Yarmouth, gwelodd 'Neighbourhoods That Work' a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr fod cromlin ddysgu ar gyfer staff yn y fan a'r lle i adeiladu a chryfhau perthnasoedd er mwyn ennyn diddordeb pobl leol yn llawn. Mae cydnabod yr holl ffyrdd y mae pobl yn ymwneud â'u cymunedau, ni waeth pa mor fach, e.e. dal allweddi eglwys leol, yn rhan bwysig o'r broses.*

- Mae rhai arianwyr wedi gweld bod dechrau gydag arweinwyr lleol cryfion yn hanfodol, mae eraill wedi myfyrio bod hyn yn bytholi mater y rhai sy'n 'anodd eu cyrraedd' neu'n 'hawdd eu hanwybyddu'. Mae rhai wedi gweld bod galw ar y 'bobl arferol' yw agwedd fwyaf radicalaidd eu dull.
- Gallai fod angen i arianwyr wella sgiliau pobl leol i fwyafu eu cyfraniad ond gallai fod angen cymorth arnynt gan eraill i wneud hwn yn effeithiol.
- Mae gweithio 'gyda' phobl a pheidio â gwneud pethau 'iddynt' yn hanfodol ar gyfer adeiladu ffydd a chreu cysylltiadau pwrpasol.
- Y ffordd orau o wneud gwaith yn berthnasol ac yn ddefnyddiol yw cysylltu fe â phobl, eu bywydau a ble maent yn byw.

## 3. Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth a rennir dros newid

*"Os ydych eisiau i rywbeth newid mae angen canolbwyntio arno (a'i ariannu) yn hytrach na gobeithio y bydd sgil-effeithiau neu effeithiau dilynol [...] amharwyd ar ddulliau seiliedig ar le blaenorol gan absenoldeb sail resymegol a ddisgrifir yn glir dros weithio mewn lle - 'damcaniaeth o le' - a/neu ddiffyg eglurder ynghylch y cymhelliad neu fan cychwyn ar gyfer dewis gweithio mewn lle."* (Buckley & Taylor, 2017)

*Chwiliodd cynllun peilot seiliedig ar le y Gronfa Loteri Fawr yn Swydd Lanark arianwyr eraill trwy Fforwm Arianwyr Yr Alban, 360 Giving, ar lafar a thrwy sefydlu rhwydwaith anffurfiol o arianwyr Swydd Lanark i rannu cysylltiadau a gwybodaeth. Galluogodd sgyrsiau ynghylch gweithio ar y cyd hefyd; cyfeirio ymgeiswyr yn well pan nad oedd y gweithgaredd arfaethedig yn ffitio i flaenoriaethau'r Gronfa Loteri Fawr; gweithgareddau ar y cyd fel digwyddiadau allgymorth, cyfarfodydd cyn-ymgeisio ac ymweliadau monitro.*

- Mae'n rhaid i arianwyr wrando'n ddwfn, hwyluso'n effeithiol a herio'n briodol.
- Cytuno ar uchelgeisiau realistig ac amcanion clir
- Gweithio ar beth sy'n bosib, adeiladu ar asedau lleol a buddsoddi mewn potensial.
- Gallai fod angen gweithio ar wahân mewn cymunedau gwahanol i ddechrau, er mwyn adeiladu hyder ac ymddiriedaeth.
- Mae rhoi pŵer i bobl leol yn gydran bwysig o gyflawni a chynnal newid, er hynny mae'n bosib y gall 'gor-ramanteiddio' aelodau'r gymuned ddadrymuso cymaint dros yr hir dymor â methu â rhannu pŵer - nid oes ganddynt yr holl atebion ac ni ellir disgwyl y bydd ganddynt yr holl atebion." (Buckley & Taylor, 2017)
- Gall partneriaethau neu gonsortia ddod â mudiadau ynghyd yn effeithiol nad ydynt wedi gweithio ar y cyd yn flaenorol. Gellir gwneud hyn trwy wneud cydweithio'n ofyniad hanfodol ceisiadau ariannu.
- Gall partneriaethau helpu dosbarthu pŵer ond mae angen gweithio trwy densiynau ac anghydfod, mae arianwyr yn cael cyfle pwysig i gynnig cefnogaeth a her adeiladol.
- Mae'n hanfodol cytuno ar bwy yw'r mudiad arweiniol iawn; nid oes rhaid cael y dewis 'amlwg' yn awtomatig, fel Awdurdod Lleol.

## 4. Dechrau'n fach, rhoi cynnig ar bethau gwahanol

*"Dechreuodd llawer o'n hardaloedd allan gyda buddsoddiadau bach mewn gweithgareddau cymdogaeth i ennill profiad o wneud i sdwff ddigwydd cyn symud ymlaen at dargedau uwch a mwy uchelgeisiol."* (Leach, 2017)

- Dylai fod gennych ymdeimlad clir o ddiben ar gyfer eich gwaith, ond peidiwch â dod gyda llawer o rhagdybiaethau am yr hyn fydd yn gweithio a'r hyn na fydd, dechreuwch yn fach a phrofwch lawer o opsiynau.
- Gall prosiectau tymor byr a arweinir gan drigolion weithredu fel catalydd a gosod sylfeini'n ogystal a datblygu dylanwad a denu ymrwymiad i ymdrin â heriau mwy neu fwy cymhleth mewn ffordd gynaliadwy.
- Mae canlyniadau cyflym i ddangos 'sut gallaf elwa?' yn bwysig iawn wrth ennyn diddordeb pobl leol.
- Mewn rhai cyd-destunau, mae digwyddiadau mawr ac amlwg yn bwysig o ran rhoi ennyd o sylweddoli i'r gymuned. (Arts Council, 2018)

- Mae'n rhaid i arianwyr beidio â beirniadu chwaeth pobl leol. "Os byddwch yn rhoi penderfyniadau i'r gymuned byddant yn dewis pethau nad ydych yn eu hoffi ac mae'n rhaid i hynny fod yn iawn." (Arts Council, 2018)
- Canolbwyntiwch ar yr hyn sy'n bosib; mae pobl leol yn greadigol a gallai eu sgiliau a'u hangerdd roi syndod i chi. Byddant yn gwybod am yr adeiladau a lleoedd y mae pobl yn eu mynychu.

## 5. Darparu ar gyfer amrywiad

*"Bydd rhai arianwyr eisiau trosglwyddo dulliau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu hardaloedd targed gwreiddiol i rywle arall yn y wlad, neu o leiaf lledaenu'r dysgu ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn syml a bydd gwahaniaethau yn y cyd-destun a hanes lleol yn effeithio ar y ddeinameg newid a'r gallu i drosglwyddo'r gwersi, mae'n bosib y bydd rhai ardaloedd yn amharod i dderbyn dysgu sy'n 'dod i mewn' o rywle arall."* (Institute for Voluntary Action Research (IVAR, 2016)

*"Bydd cynlluniau'n newid o ganlyniad i'r hyn sy'n digwydd a sut mae'r bobl sydd ynghlwm wrth y peth yn ymateb. Ni waeth pa mor dda rydych yn darogan, fe gewch eich synnu."* (Robinson, 2016)

- Mae pethau bron bob amser yn cymryd amser hwy na'r hyn a ragwelwyd, dylech ddisgwyl hyn a'i dderbyn.
- Parhewch yn hyblyg, dysgwch ac addaswch - yn ymwybodol ac yn bwrpasol.
- Mae'n cymryd amser i ddatblygu ymddiriedaeth a dealltwriaeth a gall hyn ychwanegu pwysau os yw graddfeydd amser ariannu prosiectau'n dynn.
- Mae safbwyntiau amgen yn ychwanegu gwerth a her at weithio'n lleol, ac yn helpu partneriaid i addasu eu hiaith a'u dull.
- Bydd cynyddu graddfa neu symud dull llwyddiannus o un ardal i ardal arall o reidrwydd yn syml, disgwyliwch addasu a newid i'r amgylchiadau lleol.
- Siaradwch â phobl am y newidiadau a gwelliannau y maent eisiau eu gweld i wasanaethau. Mae hyn yn *"cynyddu'r cyfle'n fawr y bydd eraill eisiau defnyddio'r gwasanaethau hynny."* (Dartington Social Research Unit, 2015)

## 6. Bod yn realistig. Derbyn camgymeriadau a methiant, gwneud lle ar gyfer dysgu a myfyrio.

*"Weithiau mae'n mynd o'i le, ac mae angen i ardaloedd ail-grwpio ac ail-lansio. Neu bartneriaethau sy'n methu ag ennyn diddordeb eu cymunedau'n effeithiol a gorfod ailystyried y ffordd y maent yn gweithio. Un o fanteision pwysig rhaglen pymtheg mlynedd llawn amynedd yw y gall aros gyda phobl a chymunedau wrth iddynt oresgyn caledi, ailadeiladu hyder a dechrau o'r newydd."* (Leach, 2017)

- Mewn rhai lleoedd, mae'n bosib na fydd pobl leol yn adnabod nac yn defnyddio'r asedau yn eu cymuned, gan feddwl nad ydynt ar eu

*Cydnabuodd Great Yarmouth, Neighbourhoods That Work fod rhai anghenion yn y gymuned yn fwy cymhleth na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Yn seiliedig ar ddysgu ym mlwyddyn un, mae cefnogaeth gyflogadwyedd wedi'i ailffocysu i ffwrdd o fodel o ysgrifennu CVs a chwilio am swyddi i un sy'n creu cysylltiadau â phobl i adnabod eu sgiliau, doniau a dyheadau ac sy'n darparu cefnogaeth fwy cyfannol.*

cyfer. Byddwch yn greadigol - mae trinwyr gwallt, pebyll, hyd yn oed faniau wedi'u defnyddio i greu effaith gadarnhaol. (Arts Council, 2018)

- Mi fydd pethau'n mynd o'i le, mae cyllid hir dymor yn caniatáu amser a lles i ail-grwpio ac ailystyried pan fydd hyn yn digwydd.
- Mae gofod ac amser i ddysgu a myfyrio'n hanfodol i lwyddiant ond peidiwch â disgwyl y bydd hyn yn creu canlyniadau dros nos.
- Dylai gweithio seiliedig ar le arwain at newidiadau yn y ffordd y mae arianwyr yn gweithio, gan gynnwys eu prosesau mewnol.

### 7. Parhau i chwilio am newid

*“Caniatewch i fudd-ddeiliaid ddeall nid dim ond "beth" y newid ond "sut" y newid [...] gall ymchwilio i faterion ansoddol seiliedig ar broses, ac nid dim ond mesurau canlyniadau. meintiol ddatgelu hefyd yr hyn a allai fod yn gyrru "bylchau gweithredu" - y perthnasoedd, gwleidyddiaeth bob dydd, strwythurau pŵer, neu ffactorau eraill a allai fod yn cael effaith andwyol ar gynnydd Mae'r math hwn o wybodaeth ansoddol yn hanfodol o ran dod o hyd i ddulliau o wella menter seiliedig ar le hanner ffordd trwodd, ac am ddod o hyd i'r gwersi ar gyfer arianwyr ar sut i adeiladu mentrau yn y dyfodol."* (Cytron, 2010)

- Gall hyd y grant deimlo fel 'amser hir' a 'dim amser o gwbl' i gyd ar yr un pryd, felly gall cadw llygad allan am arwyddion o newid a'u nodi helpu cynnal momentwm a lleihau'r ymdeimlad o fod o dan bwysau i berfformio neu gyflwyno.
- Gall gwrando ar y rhai sydd agosaf at y materion a lleoedd rydych yn cydweithio â nhw ddatgelu persbectifau newydd a'ch helpu blaengynllunio.
- Nododd JRF mai bod yn ‘frocer gonest’ oedd eu cryfder, gan ganiatáu iddynt alluogi sgyrsiau na fyddent wedi digwydd fel arall. O ganlyniad i hyn roedd gan bartneriaid fwy o allu a pharodrwydd i gydweithio ar faterion sy'n dod i'r amlwg. (Telfer, 2013)

## Sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg?

Daeth gwaith Sefydliad Joseph Rowntree dros 10 mlynedd yn Bradford i'r casgliad mai un o'u cyflawniadau allweddol oedd *“creu'r amodau i gael effaith yn hytrach na chael effaith uniongyrchol ar y ddinas ei hun.”* (Telfer, 2013)

Yn yr un modd, dysgodd Sefydliad Rank "na all yr ariannwr annibynnol drawsnewid problemau cymdeithasol y mae eu gwreiddiau'n ddwfn ond bod ganddo rôl bwerus fel cynullydd a chysylltydd. Mae gan hyn ynddo'i hun y potensial i ddatgloi cyfleoedd i bobl mewn cymunedau lleol gydweithio er budd ehangach at bawb.” (The Rank Foundation, n.d.)

Mae Carnegie UK Trust yn cynnig bod “rhyngweithio cyfeillgarwch rhwng unigolion yn sail i gyfranogiad cymunedol ac ymdeimlad ehangach o gyfalaf cymdeithasol a'u bod yn werth eu hystyried yn eu rhinwedd eu hunain […] mae'r dystiolaeth yn nodi bod yr isadeiledd cysylltiadau a gwerthoedd hwn yn sail i gydlyniant, cyfranogiad ac ymgysylltu cymunedol.” (Ferguson, 2016)

Gall y casgliadau hyn gael eu cryfhau gan adolygiad systematig o ymyraethau i roi hwb i gysylltiadau cymdeithasol trwy welliannau mewn isadeiledd cymunedol (lleoedd a gofodau) gan y Ganolfan What Works for Wellbeing. Nododd hwn y canlynol:

*“Gall bothau cymunedol hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol trwy ddod â grwpiau*

*cymdeithasol neu genhedlaeth gwahanol ynghyd; cynyddu cyfalaf cymdeithasol ac adeiladu ffydd; cynyddu rhwydweithiau cymdeithasol ehangach a rhyngweithio rhwng aelodau'r gymuned; a chynyddu gwybodaeth neu sgiliau unigolion.*

*Gall newidiadau i ddyluniad cymdogaeth gael effaith gadarnhaol ar ymdeimlad o berthyn a balchder mewn cymuned.*

*Gall ymyraethau gofod gwyrdd a glas sy'n darparu cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu gyfarfodydd wella rhyngweithio cymdeithasol; cynyddu rhyngweithio cymdeithasol rhwydweithiau a chlymau cymdeithasol a phontio cyfalaf cymdeithasol; cynyddu gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach; gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau'r gymuned.*

*Gall ymyraethau sy'n darparu canolbwynt, neu weithgaredd grŵp a dargedir helpu:* hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol rhwng grwpiau gwahanol; a goresgyn rhwystrau a allai atal rhai pobl (mewn grwpiau sydd ar ymylon cymdeithas) rhag cymryd rhan." (Bagnall, et al., 2018)

Mae'r cliwiau datblygol hyn yn cynnig cyfle i arianwyr ystyried nid dim ond y buddsoddiadau strategol sydd ganddynt mewn lle, ond hefyd sut gall cyllid ymatebol gyfrannu at y dirwedd ac isadeiledd i greu'r amgylchedd iawn ar gyfer newid a thrawsnewid.

## Cwestiynau ar gyfer arianwyr

### 1. Sut gall ariannu seiliedig ar le ymdrin ag anghydraddoldebau lles?

Mae'r Ganolfan What Works for Wellbeing yn cynnig ffocws ar y bobl sydd â'r lefelau lles isaf. Mae rhai o'u canfyddiadau'n cynnig gwybodaeth am ymyraethau sydd â mwy o effaith ar anghydraddoldeb nac ar les cyfartalog. Er enghraifft, gwelwyd bod lefelau uwch o gyfranogiad mewn gweithgareddau treftadaeth a defnyddio lleoedd gwyrdd ar gyfer iechyd neu ymarfer corff yn gysylltiedig ag anghydraddoldeb lles is mewn ardaloedd lleol, er nad yw cyfranogiad cynyddol yn y gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â lles cyfartalog gwell. Er bod cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fudd i bawb - mae'n ymddangos y gallai greu mwy o fudd ar gyfer pobl sydd â lefelau lles is.

Rydym yn gwybod y ceir rhwystrau i'r defnydd o leoedd etifeddol a gwyrdd ar gyfer y rhai sydd ag iechyd meddwl gwael, neu o gefndiroedd difreintiedig, felly dylai'r canlyniadau hyn gryfhau'r achos dros gyfleoedd ariannu wedi'u targedu sy'n annog y defnydd ehangach o asedau lleol. [1]

### 2. Sut gallwn fod mor effeithiol â phosib wrth gysylltu ein mentrau mewn lle?

Sut gall Arianwyr o bob math barhau i edrych y tu hwnt i'w cynnig ariannol a dangos hyd yn oed yn fwy o barodrwydd i gydweithredu a chydweithio, ac ar yr un pryd mwyafu eu potensial unigryw fel cynullwyr, broceriaid a chysylltwyr?

*“Mae gweithio ar y cyd yn anodd ar gyfer Sefydliadau o hyd, y mae gan bob un ohonynt eu syniadau, blaenoriaethau a drwgdybiaethau eu hunain o ran cydweithio ag eraill. Er hynny rydym ni [Sefydliad Rank] wedi dangos bod cyfuno adnoddau a dargedir at achosion lleol [yn golygu] y gall swm cymharol fach o arian wneud gwahaniaeth mawr.”*[2]

---

[1] Gohebiaeth gydag Ingrid Abreu Scherer, Canolfan What Works for Wellbeing 18/05/18

[2] Gohebiaeth gyda Dave Rawding, Cyswllt Lleol Hull, Sefydliad Rank 09/05/18

## 3. Sut gall Arianwyr neilltuo mwy o amser ac adnodd i adolygu a rhannu dysgu am ein harfer ein hunain?

Wrth ymchwilio i'r papur hwn roedd yn llawer haws dod o hyd i adroddiadau synthesis gan eraill nag i gael myfyrio a dysgu o lygad y ffynnon gan Arianwyr. Er y bu llawer o unigolion yn hael wrth rannu eu myfyrdod, gan mwyaf nid ydym yn rhannu'n ddiofyn.

Fel arianwyr rydym yn cynnig cefnogaeth i ddeiliaid grant i gofnodi a myfyrio ar eu harfer, gan gynnwys pethau nad ydynt wedi gweithio'n dda, ond o ran ein gwaith ein hunain a ydym yn dibynnu ar wybodaeth ddistaw?

Ydym ni'n cyfyngu ein hunain trwy beidio â defnyddio dull mwy agored a thryloyw o rannu dysgu o'n camgymeriadau a heriau yn ogystal â rhannu dysgu ymarferol a diriaethol ar beth sy'n gweithio mewn lleoedd?

## 4. Sut gall cymysgedd o ariannu ymatebol a strategol gyfuno'n effeithiol i adeiladu ar gyfalaf cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli?

Mae'n ymddangos bod llawer o fuddsoddiadau ariannu strategol mawr wedi'u priodoli ar sylfaen cyfalaf cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli, yn aml, ond nid yn unig, trwy awdurdodau lleol neu ddarparwyr statudol eraill. Mae Arianwyr eraill yn creu cysylltiadau y tu hwnt i'r 'rhai arferol' ac yn defnyddio grantiau bychain neu ficro ar gyfer ariannu sydd ar gael i gymunedau ei ddyrannu eu hunain. Gyda chymaint o ehangder o ddulliau, a all Arianwyr ddod ynghyd i ddisgrifio sut y gallai portffolio cytbwys ac effeithiol o ddulliau ariannu seiliedig ar le edrych?

# Atodiad A: Sefydliad Joseph Rowntree, Hartlepool Action Lab

Yn 2013 cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree Foundation (JRF) adroddiad arloesol (Telfer, 2013) ar wersi a ddysgwyd o'i waith yn Bradford dros 10 mlynedd. Gyda chyfanrwydd, naws agored a gonest, rhannodd yr adroddiad sut nad oedd JRF wedi cael pethau'n iawn a beth oedd eu llwyddiannau. Mae llawer o'r dysgu hwnnw wedi'i adleisio mewn adroddiadau diweddarach y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

Pan benderfynant ymgymryd â gwaith seiliedig ar le pellach, nododd JRF Hartlepool fel dewis addas. Mae'n hinsawdd lai o ran graddfa a chymhlethdod na Bradford, gydag ymdeimlad cryfach o hunaniaeth 'tref gyfan'. Er bod Hartlepool yn wynebu heriau tebyg i drefi ôl-ddiwydiannol a glan môr eraill ac mae ganddi isadeiledd sector gwirfoddol cyfyngedig, roedd gan JRF angor yn y dref trwy bentref ymddeol Hartfields Ymddiriedolaeth Tai Joseph Rowntree o dros 300 o drigolion. Fel cyflogwr lleol arwyddocaol teimlant y byddent yn gallu cydweithio â phobl, mudiadau a busnesau lleol trwy'r presenoldeb a rhwydweithiau yr oedd ganddynt eisoes i ddysgu sut y gellir symbylu asedau lleol i ymdrin â thlodi.

> *"Mae'r ymchwilwyr cymunedol yn grŵp anghyffredin o bobl. Maent oll yn angerddol tu hwnt am eu tref gyda llawer o deyrngarwch, anwyldeb a brand hyfryd o hiwmor lleol [...] maent yn arbenigwyr lleol uchel eu parch."*
>
> *Conversations in Hartlepool (2016)*

Gan ddewis yn echblyg i beidio â hunanadnabod fel ariannwr ond fel catalydd dros newid, dechreuodd JRF siarad â phobl a mudiadau yn Hartlepool yn 2015 i ddeall eu profiad o fyw a gwneud busnes yno. Gan gyrraedd pobl trwy hysbysebion yn y wasg leol a thrwy radio a chyfryngau cymdeithasol, bu iddynt ennyn diddordeb a hyfforddi pobl leol fel ymchwilwyr cymunedol. Arweiniodd hyn at ddau adroddiad ar yr hyn sy'n bwysig i bobl yn Hartlepool (Hartlepool Community Researchers, 2016) ac ar fforddadwyedd (Hartlepool Community Researchers, 2017).

Dechreuodd Hartlepool Action Lab yn 2016. Mae'r digwyddiadau arddangos hyn yn defnyddio technegau datrys problemau ystwyth i hwyluso pobl sy'n byw neu'n gweithio yn y dref i ddatblygu atebion i broblemau mor gyflym â phosib. Mae ganddynt 'duedd echblyg tuag at weithredu', gydag ymrwymiad cryf i ddysgu trwy wneud, yn seiliedig ar lwyddo a methu. Cynhyrchodd Labordy pedwar diwrnod cychwynnol dri phrosiect, un yn gweithio ar dai ar gyfer pobl ifainc 'sy'n derbyn gofal', un i gryfhau cymunedau a phrosiect bancio amser i wella sgiliau a chyflogadwyedd(Allen, et al., 2017). Mae grantiau micro o £500 bob 10 diwrnod ar gael i gefnogi prosiectau ond mae'n glir mai'r gymuned a'r partneriaid sy'n gyfrifol am gyflwyno'r syniadau a gynhyrchir.

Canolbwyntiodd ail Labordy yn 2017 ar fforddadwyedd, er mwyn mynd i'r afael â phrofiadau bob dydd pobl o dlodi ac ar yr un pryd osgoi'r term tlodi nad oedd yn dderbyniol i rai pobl neu fudd-ddeiliaid lleol. O ganlyniad i hyn mae Her £1,000,000 Hartlepool yn anelu at roi £1 miliwn i mewn i bocedi pobl leol erbyn diwedd 2018 trwy eiriolaeth a chefnogaeth i leihau cost byw a mwyafu incwm (newid cyflenwr ynni, insiwleiddio tai, mesuryddion dŵr, a hawlio budd-daliadau). Mae Ffeiriau Bwyd a Thanwydd yn cynnig cymorth gan gynnwys siopa ar-lein, coginio ar gyllideb fach, nwyddau misglwyf am ddim ac adloniant i blant. Mae hyn yn cynnwys rhoi potiau coginio araf, perlysiau, sbeisys a llyfrau coginio am ddim.

Gyda phobl leol, mae JRF yn parhau i ddysgu am effaith ac effeithiolrwydd yr Action Lab trwy werthuso allanol a datblygu fframwaith a phroses ddysgu ymarferol.

https://www.hartlepoolactionlab.org/

## Atodiad B: Cronfa Loteri Fawr, Jaywick Sands, Essex

Mae Jaywick Sands yn bentref glan môr yn Essex sy'n cynnwys y gymdogaeth fwyaf difreintiedig yn Lloegr (Department for Communities and Local Government, 2015). Gan hynny mae wedi denu llawer o ymdrechion gan arianwyr gwahanol i fuddsoddi ynddi.

Yn hanesyddol mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cefnogi'r tri darparwr lleol yr ymddiriedir mwyaf ynddynt trwy grantiau Reaching Communities[3], ac wedi cydweithio'n flaenorol â Fforwm Cymunedol Jaywick i ariannu gweledigaeth a chynllun cymunedol a ddatblygwyd gan ymgynghorydd allanol. Dyfarnwyd cyllid ar gyfer gweithgareddau i annog trigolion i ymwneud â'r gwaith hwn ac er y cyflwynwyd y cynllun a'r weledigaeth, cwestiynodd y Gronfa wedyn a fuom mor llwyddiannus wrth ennyn diddordeb cynifer o bobl leol ag yr oeddem wedi gobeithio.

Wrth i ni symud ein dull gweithio i fodel mwy lleol gydag aelod staff penodedig a leolir yn yr ardal, clywsom gan y rhai a fu'n cymryd rhan y bu teimladau cymysg am y dull yr oeddem wedi'i ddefnyddio ac yr oedd llawer o drigolion nad oeddent yn awyddus i siarad â rhywun 'o'r tu allan' sy'n canolbwyntio ar eu 'hanghenion'. O ganlyniad i leoli ein Rheolwr Ariannu'n lleol fe'n grymuswyd i arsylwi'r rhwydwaith cyfoethog o grwpiau anffurfiol, trigolion ac unigolion sydd am wneud pethau yn eu hardal, a gyda a thros eu cymdogion a'u hardal.

Yn ein cyfarfodydd gyda thrigolion, cydnabuwyd ysbryd cymunedol cryf Jaywick a gwelwyd bod llawer o bobl sy'n gweithio i gefnogi eu cymuned a'i gilydd, ond mewn dull llawr gwlad iawn. Mae'r isadeiledd cymdeithas sifil lleol yn gymharol danddatblygedig ac mae ychydig iawn o elusennau sydd wedi'u lleoli'n lleol iawn neu y mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt.

Gan gydweithio â Fforwm Cymunedol Jaywick, daethom â grŵp o tuag 20 o bobl a mudiadau lleol ynghyd i drafod yr hyn a oedd yn dda yn yr ardal a'r hyn y gellir adeiladu arno. Trwy'r sgwrs hon a sgyrsiau dilynol, nodwyd cryn nifer o syniadau gan drigolion na chawsant eu hariannu neu a danariannwyd a bod y gweithgareddau hyn fel arfer yn digwydd ar raddfa amser fer, 'dros yr wythnosau nesaf'. Sylweddolom nad yw hyd yn oed ein cynnyrch ariannu symlaf (Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol) yn addas i ymateb o fewn y ffenest frwdfrydedd hollbwysig honno i gefnogi'r mathau hyn o syniadau.

Cydnabyddem hefyd nad oes gennym, fel Ariannwr, y presenoldeb, gwybodaeth am gysylltiadau a hanes pobl leol, neu ddealltwriaeth feddal o'r ardal eto i wneud dewisiadau gwybodus ein hunain. Mae gan Fforwm Cymunedol Jaywick a phobl allweddol leol yr wybodaeth honno.

O ganlyniad i hyn ariannwyd Fforwm Cymunedol Jaywick gyda grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol o £7,000 i sefydlu cynllun ariannu lleol i dderbyn, asesu a dyfarnu grantiau micro (rhwng £50 a £1,000) i gefnogi trigolion neu grwpiau anffurfiol Jaywick i wneud i'w syniadau ddigwydd. Mae'r ceisiadau'n seiliedig ar feini prawf byrion, er enghraifft, 'ar gyfer gweithgarwch cymunedol, hapusrwydd a lles yn Jaywick' a chynnig ysgrifenedig byr, a addaswyd o gynllun tebyg a weithredwyd gan Sefydliad Rank.

Mae panel sy'n cynnwys Fforwm Cymunedol Jaywick, staff y Gronfa Loteri Fawr a chynrychiolydd o Gyngor Swydd Essex yn gwneud penderfyniadau ac mae cytundeb

[3] Grantiau hyblyg dros £10,000 am hyd at bum mlynedd

templed yn cael ei gwblhau cyn bod grant yn cael ei ryddhau, mae hyn yn cynnwys meysydd allweddol cyfrifoldeb a gofynion cyfreithiol. Mae'r grant cyntaf wedi'i ryddhau'n ddiweddar i gefnogi pantomeim y pentref.

https://www.essexinfo.net/jaywick-community-forum/

## Atodiad C: Sefydliad Rank, Rhaglen Datblygu Cymunedol Hull

Mae gan Sefydliad Rank dros 60 mlynedd o brofiad o ddatblygu cymunedol a diddordeb cryf mewn manteision lluosog posib ariannu mewn lle. Roeddent eisiau profi dull aml-haenog o ddatblygu cymunedol ar draws llawer o feysydd, o fewn ardal ddaearyddol fach i weld a allai hwn gyflawni gwell effaith na phrosiectau Adnabuwyd Hull fel man profi, yn seiliedig ar nifer o 'risgiau' trosedd, iechyd a lles yn y ddinas, ochr yn ochr â *“dull ymrwymedig ac unedig gan y rhai sy'n arwain yr asiantaethau pennaf [a] sylweddolodd mai cronni eu cyd-ymdrechion tuag at ddatrys problemau seiliedig ar dystiolaeth oedd eu hunig ddull realistig o gyflawni gwelliannau.”* ( The Rank Foundation / The Esmée Fairbairn Foundation, Unpublished)

Anelodd Cam I y rhaglen at greu "amodau ar gyfer dinas adferol sy'n cynnwys yr holl drigolion ni waeth beth yw eu hoedran, anabledd, magwraeth, addysg neu ffordd o fyw. Adnabod a chefnogi ystod o wasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd gwell i wella ansawdd bywyd, gyda ffocws ar y rhai sydd fwyaf mewn perygl  o gael eu hallgau o gymdeithas. Cydlynu partneriaeth o ddarparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill a fydd yn cyfrannu ar y cyd at wella cyfleoedd a phrofiadau bywyd trigolion Hull."(Edwards, 2017)

Derbyniodd 21 o brosiectau, sy'n ymdrin ag ystod eang o wasanaethau o gerddi cymunedol i wasanaethau prawf, £1.5m (2013-2015). Dyluniwyd prosiectau'n seiliedig ar werthoedd yn hytrach na manylebau, allbynnau a thargedau. Er enghraifft, hyfforddodd yr holl brosiectau staff mewn Egwyddorion Adferol (Restorative Justice Council, n.d.) er mwyn darparu iaith a dulliau gweithio cyffredin.

> *“Mae HCDP wedi creu gofod newydd fel bod budd-ddeiliaid allweddol; asiantaethau statudol (comisiynwyr), y sector gwirfoddol, ffydd a phobl leol yn gallu dod ynghyd heb 'hetiau' sefydliadol i weithio ar y cyd ynglŷn â'r hyn y mae'r gymuned ei angen a'i eisiau'n wirioneddol."*

Roedd lleoli staff yn Hull a gweithio yn y fan a'r lle i gaffael gwybodaeth ac yna chwilio am arweinwyr lleol a all gyflwyno prosiectau'n allweddol i greu cysylltiadau'n effeithiol. Daeth ffocws diysgog Rank ar adeiladu a meithrin rhwydweithiau a pherthnasoedd er mwyn eu hunain i gael ei ystyried yn 'glud hollbwysig' y rhaglen.

Sicrhaodd Rank fod prosiectau'n dod ynghyd yn rheolaidd i gefnogi ei gilydd, ac er eu bod wedi gobeithio y byddai prosiectau sy'n gweithio o fewn themâu gwahanol fod yn barod i gydweithio'n agosach roedd parodrwydd prosiectau i gydweithio y tu hwnt i ddiddordebau thematig a'r tu allan i'r rhwydwaith craidd fel syndod iddynt. Oherwydd yr amser ac ymdrech a dreuliwyd yn datblygu arweinyddiaeth a chreu perthnasoedd roedd ymddiriedaeth ac ymrwymiad a adeiladodd gydweithredu gwirfoddol yn ei dro, gan alluogi rhannu gwybodaeth a chreadigrwydd a symbylodd berfformiad a phobl a aeth 'y tu hwnt i alw dyletswydd'. (Rawdings, 2018)

Ar ddiwedd Cam I cafwyd adborth gan brosiectau mai'r hyn yr oeddent yn ofni ei golli fwyaf oedd y gefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Rank, nid y cyllid.

Mae Cam II yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda ffocws ar gryfhau gwydnwch, hyrwyddo gweithio ar y cyd a gadael etifeddiaeth fywiog. Mae Grantiau Gweithgarwch Hull o tua

£500 ar gael i gefnogi gweithgareddau sy'n cynyddu ymgysylltu a chyswllt cymdeithasol, wedi'u cymeradwyo gan banel gwneud penderfyniadau.

https://rankfoundation.com/hull/

## Atodiad Ch: Cronfa Loteri Fawr, Great Yarmouth, Neighbourhoods that Work

Mae Great Yarmouth yn rhannu nodweddion cymunedau arfordirol anghysbell eraill: economi sgiliau a chyflogau isel, cyrhaeddiad economaidd is, diweithdra hir dymor ac amrywiad tymhorol yn yr economi leol. Roedd Cyngor y Fwrdeistref wedi ymgeisio heb lwyddiant i ddau o raglenni strategol mawr y Gronfa Loteri Fawr, ac fe ymatebodd trwy weithio i gryfhau ei sefyllfa fel y gallai cysylltu â ni flwyddyn yn ddiweddarach gyda chynnig, Neighbourhoods that Work (NTW). Mae NTW yn enghraifft o ariannu seiliedig ar le sydd wedi'i ymwreiddio mewn pedair elfen allweddol: a) Daearyddiaeth a ddiffinnir yn dda; b) 'Bach' thematig ar gyfer y gwaith; c) Cyfalaf cymdeithasol datblygedig a fu'n bodoli eisoes (mae holl fuddsoddiadau mawr y Gronfa Loteri Fawr yn defnyddio'r dull hwn); ch) Arweinyddiaeth a symbyliad lleol i alluogi newid systemau.

Mae NTW yn defnyddio ‘Cysylltwyr’ o dri Both Cymdogaeth i helpu pobl i gyrchu gwasanaethau i gefnogi problemau cymhleth fel hunan-barch isel, iechyd meddwl, dyled, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, digartrefedd a diweithdra hir dymor. Ei nod yw dangos y gall ymyraethau datblygu cymunedol seiliedig ar asedau graddfa fach gael eu hehangu a'u hintegreiddio â gwasanaethau cymunedol wedi'u hail-ddylunio a mentrau creu swyddi i gynnig model sy'n briodol ar gyfer yr hinsawdd ariannol ac economaidd cyfredol.

Mae NTW wedi'i oruchwylio gan Fwrdd Cymdogaeth ar gyfer pob both, wedi'u cyfansoddi o drigolion sy'n dal 50% o'r seddi; aelodau ward etholedig o'r Cynghorau Sir a Bwrdeistref; seddi statudol a chynrychiolwyr o fudiadau Gwirfoddol a Chymunedol. Mae'r Byrddau'n pennu blaenoriaethau lleol, cyfeirio dyluniad gweithgareddau ac yn bwydo i mewn i'r arweinyddiaeth gyffredinol.

Mae'r canfyddiadau gwerthuso allweddol ar ôl tair blynedd yn dangos bod y Cysylltwyr yn gweithio'n dda i gyflwyno canlyniadau'r rhaglen a bod perthnasoedd da wedi datblygu rhwng y partneriaid cyflwyno. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dod i'r amlwg bod NTW yn cynyddu hyder a mynediad i feysydd cefnogaeth lluosog, gyda dibyniaeth ostyngol ar wasanaethau argyfwng. Gan gydweddu â'r canfyddiadau a amlinellir yn y papur hwn, mae cofnodi dysgu ac addasu'n briodol wedi bod yn allweddol i ddatblygu parhaus:

Cymerodd symud o fod yn wyth mudiad i 'dîm NTW' y rhan fwyaf o'r flwyddyn gyntaf i'w gyflawni felly roedd buddsoddi mewn gweithgareddau adeiladu tîm yn hanfodol.

Bu'n rhaid gwneud ymdrech sylweddol i greu ymwybyddiaeth o NTW trwy raglen ddigwyddiadau barhaus. Ni newidiodd ymwybyddiaeth ynddi'i hun i ymgysylltu.

Aeth cymhlethdod anghenion rhai pobl y tu hwnt i ddisgwyliadau cychwynnol ac effeithiodd cyflwyno Credyd Cynhwysol ym mis Mai 2015 ar y lefelau cefnogaeth gofynnol hefyd. Mae'r prosiect wedi ail-alinio adnoddau ac ailffocysu rhan o'i waith wrth iddo fyfyrio ar yr un pryd ar fanion sut mae her a chyflawni'n edrych i grwpiau cleientiaid gwahanol a sut i ddod o hyd i dystiolaeth well o'r rhain.

Gwnaed cynnydd da wrth alinio adnoddau ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid i sicrhau cyflwyniad di-dor a dylanwadu ar wasanaethau statudol a mudiadau isadeiledd i alinio

amcanion. Mae'r tîm hefyd yn ofalus i gysylltu â mentrau ariannu eraill er mwyn osgoi dyblygu.

http://neighbourhoodsthatwork.org/

## Llyfryddiaeth

The Rank Foundation / The Esmée Fairbairn Foundation, Unpublished. *Hull Community Development programme: An Introduction to Place-Based Philanthropy*. s.l.:s.n.

Allen, D. M., Clement, S. & Prendergast, Y., 2017. *Report of the Evaluation of Hartlepool Action Lab*. [Ar lein]
Available at: https://www.hartlepoolactionlab.org/wp-content/uploads/2017/09/Hartlepool-Action-Lab-red-Consultancy-evaluation-2017.pdf
[Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018].

Arts Council, 2018. *Round table, 6 March 2018: sharing the learning from place-making approaches including the Creative People and Places programme*. s.l.:s.n.

Bagnall, A.-M.et al., 2018. *Places, spaces, people and wellbeing: A systematic review of interventions to boost social relations through improvements in community infrastructure (places and spaces)*. [Ar lein]
Available at: https://whatworkswellbeing.org/product/places-spaces-people-and-wellbeing/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Big Lottery Fund, 2014. *Your Voice Our Vision: Development of our Next Strategic Framework 2015 – 2021 (2014)*. London: s.n.

Bolton, M., 2015. *Place-based funding: developing the ecology of the social sector*. [Ar lein]
Available at: https://baringfoundation.org.uk/resource/place-based-funding/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Boulton, J. G., Allen, P. M. & Bowman, C., 2015. *Embracing Complexity: Strategic Perspectives for an Age of Turbulence*. s.l.:Oxford University Press.

Buckley, E. & Taylor, P. M., 2017. *Historical review of place based approaches*. [Ar lein]
Available at: https://lankellychase.org.uk/multiple-disadvantage/publications/historical-review-of-place-based-approaches/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Cytron, N., 2010. *Improving the Outcomes of Place-Based Initiatives*. [Ar lein]
Available at: https://www.frbsf.org/community-development/files/N_Cytron.pdf
[Cyrchwyd 25 Maiy 2018].

Dartington Social Research Unit, 2015. *Realising Ambition, Programme Insights: Issue 1. The Secret Life of Innovation: Replication*. [Ar lein]
Available at: https://www.catch-22.org.uk/services/realising-ambition/programme-insights/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Department for Communities and Local Government, 2015. *The English Indices of Deprivation 2015 Statistical Release 3*. [Ar lein]
Available at:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/465791/English_Indices_of_Deprivation_2015_-_Statistical_Release.pdf
[Cyrchwyd 06 Awst 2018].

Edwards, S., 2017. *Theory of Change: Narrative. Hull Community Development Programme – Phase 2*. s.l.:s.n.

Ferguson, Z., 2016. *Kinder Communities: The power of everyday relationships*. [Ar lein]
Available at: https://www.carnegieuktrust.org.uk/publications/kinder-communities-power-

everyday-relationships/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Green, D., 2015. *How do you go about embracing complexity? It's complicated.* [Ar lein] Available at: https://www.theguardian.com/global-development-professionals-network/2015/aug/26/embracing-complexity-theory-aid-duncan-green-review
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Hartlepool Community Researchers, 2016. *Conversations in Hartlepool.* [Ar lein] Available at: https://www.hartlepoolactionlab.org/wp-content/uploads/2017/09/Hartlepool-Action-Lab-community-research.pdf
[Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018].

Hartlepool Community Researchers, 2017. *Making Life Affordable: A community research report about the cost of living in Hartlepool.* [Ar lein]
Available at: https://www.hartlepoolactionlab.org/wp-content/uploads/2017/10/Making-Life-Affordable.pdf
[Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2018].

Institute for Voluntary Action Research (IVAR, 2016. *Working in Place: A framework for place-based approaches.* [Ar lein]
Available at: https://www.ivar.org.uk/research-report/working-in-place/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Leach, M., 2017. *Learning from place-based funding.* [Ar lein]
Available at: https://www.acf.org.uk/news/guest-blog-learning-from-place-based-funding
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Rawdings, D., 2018. [Cyfweliad] (9 Mai 2018).

Restorative Justice Council, diddyddiad *Principles of restorative practice.* [Ar lein]
Available at: http://www.iirp.eu/resources/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Robinson, M., 2016. *Faster, But Slower Slower, But Faster: Creative People and Places Learning 2016.* [Ar lein]
Available at: http://www.creativepeopleplaces.org.uk/our-learning/faster-slower-slower-faster
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

Telfer, S., 2013. *What makes effective place-based working? Lessons from JRF's Bradford programme.* [Ar lein]
Available at: https://www.jrf.org.uk/report/what-makes-effective-place-based-working
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

The Rank Foundation, diddyddiad *Place Based.* [Ar lein]
Available at: https://rankfoundation.com/engaged-philanthropy/place-based/
[Cyrchwyd 23 Mai 2018].

**Ymwadiad**

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd storïau personol deiliaid grant a staff ac yn rhannu enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer pobl eraill. Nid yw unrhyw safbwynt, myfyrdod neu farn a fynegir gan ddeiliaid grant a staff yn adlewyrchu safbwyntiau, myfyrdod neu farn y Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"). Nid yw cynnwys hyperddolen yn cynrychioli dilysiad unrhyw gynnwys allanol gan y Gronfa ychwaith.

Ni ddylid tybio bod cynnwys yr adroddiad hwn yn gyfarwyddyd, arweiniad na chyngor ac ni ddylech ddibynnu ar yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn fel dewis amgen i gyngor cyfreithiol, meddygol, ariannol proffesiynol nac unrhyw gyngor proffesiynol arall. At hynny, nid yw crybwyll mudiadau penodol yn awgrymu eu bod wedi'u dilysu neu eu hargymell gan y Gronfa uwchben unrhyw rai eraill tebyg eu natur nad ydynt wedi'u crybwyll.

Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn ddiweddar, gallai gwybodaeth newid.

I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw'r Gronfa yn derbyn unrhyw atebolrwydd ac yn ymwadu pob atebolrwydd i unrhyw drydydd parti sy'n honni ei defnyddio neu ddibynnu am unrhyw reswm o gwbl ar yr adroddiad, ei gynnwys, casgliadau, mae unrhyw ddetholiad, ail-ddehongliad, diwygiad a/neu addasiad gan unrhyw drydydd parti ar eu menter eu hunain yn gyfan gwbl.

Mae tîm Gwybodaeth a Dysgu y Gronfa Loteri Fawr yn rhannu mewnwelediad o brofiadau o'n hariannu a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Os hoffech ddweud wrthym beth yw eich barn am yr adroddiad hwn, neu rannu canfyddiadau a dysgu perthnasol, gyrrwch e-bost atom yn gwybodaeth@cronfaloterifawr.org.uk

Cyswllt allweddol: Julia Parnaby

Cronfa Loteri Fawr, 2018
Fersiwn 1. Cyhoeddwyd mis Awst 2018.
Cyfeirnod: KL18-11